GWYBODAETH LLYTHRENNAU –
TASG YSGRIFENNU LLYTHRENNAU
Cyfarwyddiadau Gweinyddu a Sgorio

Gwybodaeth am y Prawf

Beth sy'n cael ei fesur	Mae'r prawf hwn yn asesu gallu plant i ysgrifennu seiniau llythrennau y maent yn clywed. Gellir ei ystyried i fod yn ddangosydd o allu sillafu cynnar. Mae Ysgrifennu Llythrennau yn beth mwy cymhleth na Enwi Llythrennau, oherwydd mae angen adalw llythyren neu grŵp tebygol o lythrennau, actifadu ei ffurf orthograffig, a'i chynhyrchu'n ysgrifenedig ar daflen y prawf. Mae'r prawf yn cynnwys 15 llythyren: 5 llafariad a 10 cytsain. Nid yw'r prawf yn cael ei amseru a gellir ei gynnal yn unigol neu gyda grwpiau bach.
Ystod Oedran	Mae'r prawf yn addas ar gyfer plant Blwyddyn Derbyn a Blwyddyn 1, ac weithiau gall fod yn briodol ar gyfer plant hŷn sy'n profi anawsterau darllen a sillafu. Hefyd, er na fydd y rhan fwyaf o blant cyn-ysgol wedi dysgu'r wyddor yn ffurfiol, bydd llawer ohonynt yn gwybod *rhai* llythrennau a, hyd yn oed yn y cyfnod hwn, mae gallu'r plentyn i ysgrifennu llythrennau yn gallu bod yn ddefnyddiol i ragweld canlyniadau diweddarach o ran llythrennedd.
Sgorio (cywirdeb)	Rhoddir dau bwynt am bob llythyren gywir sy'n cael ei gosod yn gywir; a rhoddir un pwynt am bob llythyren gywir sy'n cael ei gosod yn anghywir. Rhoddir 0 pwynt am atebion anghywir. Os yw'r plentyn yn **gwrthod rhoi cynnig ar 6 eitem yn olynol**, dylid rhoi'r gorau i'r prawf. Cyn belled â bod y plentyn yn barod i roi cynnig arni dylid parhau â'r prawf hyd y diwedd, ni waeth faint o gamgymeriadau sydd wedi eu gwneud.
Normau	Bydd gwybodaeth am normau Cymraeg ar gael yn fuan.
Deunyddiau gweinyddu	Taflen y Cyfranogwr a phensel neu ben (beth bynnag sy'n arfer cael ei ddefnyddio yn yr ystafell ddosbarth) i'r plentyn Taflen Cyfarwyddiadau Gwybodaeth Llythrennau – Tasg Ysgrifennu Llythrennau Taflen Sgorio Gwybodaeth Llythrennau - Tasg Ysgrifennu Llythrennau

Gweithdrefn y Prawf

1. Cyflwyniad y Prawf

Mae'r Gweinyddwr yn dweud:

"Dan ni'n mynd i drio 'sgwennu llythrennau rwan. Dw i'n mynd i ddweud SAIN y llythyren, a dw i isio i ti drio sgwennu'r llythyren ar y papur. 'Sgwenna bob llythyren ar linell newydd. Be' am i ni drio'r un cyntaf?"

© Caravolas, M., Mikulajová, M., Defior, S., & Seidlová Málková, G. (2018). *Multilanguage Assessment Battery of Early Literacy.* Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhyrchu, copïo, rhannu, na chyhoeddi heb ganiatâd yr awduron.

D.S.: Dylai'r Gweinyddwr annog y plentyn i roi cynnig ar bob eitem, gan ddyfeisio sillafiad os nad ydyn nhw'n siŵr. Fodd bynnag, dylai'r Gweinyddwr roi'r gorau i'r prawf os yw'r plentyn yn gwrthod rhoi cynnig ar **6 llythyren yn olynol**. Dylid gadael pob cell tu hwnt i'r pwynt terfynu yn wag.

-Dylai'r Gweinyddwr ynganu seiniau'r llythrennau fel y maen nhw'n cael eu nodi yn y cromfachau //, ac nid yn ôl eu henwau. Mae'r cliwiau o ran sut i ynganu'r llythrennau wedi eu darparu ar gyfer y Gweinyddwr (nid ar gyfer y plentyn) ar gyfer pob eitem ac maent wedi eu nodi yn y golofn "Cliwiau Ynganu" yn y tabl isod.

- Dylai'r Gweinyddwr siarad yn **bwyllog**. Gellir ailadrodd sain pob llythyren **hyd at dair gwaith**.

- Dylid annog y plentyn i ysgrifennu un llythyren ar bob llinell.

2. Cynnal y Prawf

Dylai'r Gweinyddwr ddilyn (darllen ar goedd) y sgript sy'n benodol ar gyfer pob eitem yn y tabl isod:

Rhif yr Eitem	Sain y Llythyren	Cliwiau Ynganu	Sgript
1	/**m**/	fel *m*awr	Be' am /**m**/? Trïa ysgrifennu'r llythyren sydd yn gwneud /**m**/.
2	/æ/	fel *a*fal	Be' am /æ/? Wyt ti'n gallu gwneud y llythyren /æ/?
3	/**s**/	fel *s*ŵn	Be' am /**s**/? Trïa ysgrifennu /**s**/.
4	/ɛ/	fel *e*nfus	Rwan trïa /ɛ/.
5	/**p**/	fel *p*am	Rwan trïa /**p**/.
6	/**l**/	fel i *l*awr	Rwan trïa /**l**/.
7	/ɔ/	fel *o*ren	Be' am /ɔ/?
8	/g/	fel *g*wyn	Be' am /g/?
9	/**b**/	fel *b*ol	Rwan trïa /**b**/? Trïa ysgrifennu'r llythyren /**b**/.
10	/**k**/	fel *c*ath	Be' am /**k**/?
11	/ɪ/	fel t*i*pyn	Rwan trïa /ɪ/.
12	/**d**/	fel *d*afad	Be' am /**d**/?
13	/ʊ/	fel c*w*m	Be' am /ʊ/?
14	/**f**/	fel *ff*ôn	Rwan trïa /**f**/.
15	/**t**/	fel *t*eulu	Be' am /**t**/?

© (2018). *Multilanguage Assessment Battery of Early Literacy.* Cedwir pob hawl.

3. Sgorio

- Dylai'r Gweinyddwr gyfeirio at **Daflen Sgorio Gwybodaeth Llythrennau - Tasg Ysgrifennu Llythrennau** i sgorio'r eitemau.

- Am bob eitem yn y golofn **2/1/0**, dylai'r Gweinyddwr:
  - sgorio **2** wrth ymyl pob ateb **cywir** (h.y. yr ohebiaeth sy'n cael ei dysgu pan mae'r disgyblion yn dysgu'r wyddor), a, sydd wedi ei **osod yn gywir**
  - sgorio **1** wrth ymyl pob ateb **cywir** sydd wedi ei **osod yn anghywir**
  - sgorio **0** wrth ymyl pob ateb **anghywir,** a chopïo'r sillafiad a ddyfeisiodd y plentyn
  - ysgrifennu **/** os yw'r plentyn wedi **hepgor llythyren neu wedi gwrthod rhoi cynnig ar lythyren**, a rhoi sgôr o 0 pwynt.

© (2018). *Multilanguage Assessment Battery of Early Literacy.* Cedwir pob hawl.